

Cyngor Cymuned Bryncrug Community Council

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun 19eg o Chwefror 2018 am 7:00pm

Presennol: Cynghorydd Richard Evans (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Bethan Lawton, Peter Parker, Arwel Pierce, Griffith Evan Thomas

- Ymddiheuriadau: Cynghorydd Alan H. Jones
- Datgan diddordeb: Ni fu i'r un cynghorydd ddatgan buddiant
- Derbyn cofnodion 15 Ionawr 2018

PENDERFYNIAD: I dderbyn y cofnodion fel rhai cywir.

- Cyfrifon i'w talu:

B Gwilym	Cyflog	101585	£166.64
Cyllid a Thollau	Yswiriant Gwladol	101586	£41.60
Capel Bethlehem	Rhodd	101587	£15.00
SLCC	Aelodaeth	101588	£43.00
Dŵr Cymru	Dŵr	101589	£213.08
Cyngor Gwynedd	Ailgylchu	101590	£3.00
Y Ganolfan	Llogi Ystafell	101591	£18.00
Un Llais Cymru	Aelodaeth	101592	111.00

PENDERFYNIAD: I dalu'r anfonebau uchod. Nodwyd bod yr anfoneb am ddŵr yn llawer uwch nac yr arfer ac y dylid anfon neges at y Clwb Pêl-droed yn pwysleisio'r pwysigrwydd o droi'r tapiau i ffwrdd.

- Cais ariannol - Gŵyl Cerdd Dant Blaenau Ffestiniog a'r Fro 2018:

PENDERFYNIAD: Gadael ar y bwrdd tan ddiwedd y flwyddyn ariannol.

- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Cais Cynllunio - Ysubor Pencraig, Bryncrug (NP5/55/187C):

PENDERFYNIAD: I anfon llythyr at Awdurdod Parc Cenedlaethol yn mynegi siom Cyngor Cymuned Bryncrug bod y strwythur wedi ei addasu heb i'r Cyngor Cymuned wybod.

- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Cynllun Datblygu Lleol Eryri diwygiedig 2016-2031 - Cyflwyno i Lywodraeth Cymru / Yr Arolygaeth Gynllunio:

PENDERFYNIAD: I anfon llythyr at Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn mynegi barn y Cyngor Cymuned, sef y dylid cynnwys tir ger Ffordd y Felin, y tir sydd wedi ei dynnu oddi-ar y cynllun diweddaraf. Nid oedd y newidiadau wedi eu hamlygu yn glir i'r Cyngor a bod y Cyngor yn siomedig bod y tir wedi ei dynnu allan o'r ffin datblygu.

- Cyngor Gwynedd - Ail-Fodelu Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Gwynedd

Derbyniwyd llythyr yn dweud bod argymhelliad yn cael ei gyflwyno i Gabinet Cyngor Gwynedd sydd yn argymhell y dylid cau pob un o glybiau ieuenctid y Sir a sefydlu clwb ieuenctid sirol. Yr oedd y llythyr yn cynnig 3 opsiwn ar gyfer cadw clwb ieuenctid ym Mryncrug:

-Cyngor Cymuned Bryncrug i dalu £3,500 i Gyngor Gwynedd, sef cyflog Arweinydd ac Is-arweinydd, yn ogystal â £750 i logi neuadd

-Cyngor Cymuned Bryncrug i redeg y clwb ieuenctid drwy ddefnyddio gwirfoddolwr

-Grŵp cymunedol redeg y clwb drwy ddefnyddio gwirfoddolwyr

PENDERFYNIAD: I gysylltu gyda Phwyllgor y Ganolfan er mwyn gofyn am gyfarfod i drafod y posibilrwydd o gydwethio. I gysylltu gyda Chyngor Gwynedd er mwyn dweud bod Cyngor Cymuned Brynchrug yn edrych mewn i'r mater ac angen rhagor o amser i ystyried, gan hefyd ddweud bod y llythyr yn hwyr yn cyrraedd, sef ar ôl i'r Cyngor osod ei bresept.

9. Un Llais Cymru - Aelodaeth 2018/19:

PENDERFYNIAD: Parhau gyda'r Aelodaeth.

10. Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn - Holiadur Ymgynghoriad Cyhoeddus:

PENDERFYNIAD: Awdurdodi'r Clerc i'w gwblhau.

11. Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru - Arolwg o'r Trefniadau Etholiadol ar gyfer Sir Gwynedd - Cynigion Drafft:

Yr oedd yr adroddiad yn cynnig nifer o newidiadau ar gyfer trefniadau etholiadol Cyngor Gwynedd. Yr unig newidiadau ar gyfer y ward sydd yn cynrychioli Brynchrug oedd:

-Cynyddu maint y ward yn ddaearyddol ac ar ran nifer o etholwyr drwy gynnwys Llanegryn

-Newid enw'r ward i Fro Dysynni

PENDERFYNIAD: Nodwyd bod y ward Bro Dysynni yn cael ei wasanaethu gan un Ysgol Gynradd. I dderbyn y wybodaeth a pheidio cynnig sylwadau ffurfiol.

12. Cofrestru pypiau dŵr hanesyddol:

PENDERFYNIAD: Ysgrifennu at Morris a Bates, Cyfreithwyr er mwyn gofyn am ddyfynbris i gofrestru'r pypiau dwr canlynol gyda'r Gofrestrfa Tir: Rhyd yr Onnen, Pentre-uchaf, Ffordd y Felin, Gardd Fach a ger Llain-y-Grug. Ysgrifennu at Gyngor Gwynedd er mwyn gofyn a oes ganddynt unrhyw wrthwynebiad i Gyngor Cymuned Brynchrug i gofrestru'r pypiau hanesyddol.

13. Trafod prynu llochesi bws newydd:

Adroddwyd y byddai lloches bws newydd oddeutu £1,500.

PENDERFYNIAD: I beidio â phrynu lloches bws newydd, gan gadw llygaid ar gyflwr y llochesi.

14. Cyngor Gwynedd - Gwasanaeth Amgylcheddol - Cynnal a chadw llwybrau cyhoeddus yn 2018:

Yr oedd llythyr wedi ei dderbyn yn manylu ar y trefniadau o ad-dalu Cyngorau Cymuned am dorri coed/gwrych ar lwybrau cyhoeddus yn 2018. Byddai £103.23 ar gael yn 2018/19 pe byddai Cyngor Cymuned Brynchrug yn dymuno parhau gyda'r trefniant.

PENDERFYNIAD: I barhau gyda'r trefniant.

15. Cae Chwarae - Adroddiad:

PENDERFYNIAD: Hysbysu'r Clwb Pêl-droed am yr angen i droi tapiau dwr i ffwrdd. Nodi bod llanastr ger y sied, gofyn i'r Clwb beth yw eu bwriad i waredu'r sbwriel.

16. Adroddiad y Cynghorydd Sir:

Adroddwyd y canlynol:

-Sbwriel wedi ei daflu ger y toiled. Enw a chyfeiriad y sawl oedd yn gyfrifol wedi ei adael ar ôl, angen i Gyngor Gwynedd erlyn y sawl.

-Wedi hysbysu Prif Beiriannydd Meirionnydd o sefyllfa dwr ar y ffordd ger Tanycoed ar ddiwrnod Eisteddfod Abergynolwyn

-Ad-drefnu gwasanaeth Oedolion a Siop un Stop, posteri wedi eu derbyn

-Llifogydd ger Pentre-uchaf, angen agor ffos gan fod perygl i ddŵr mynd mewn i dai

- Treth Cyngor yn codi 4.8%, band D yn talu £1 yr wythnos yn fwy
- y Cynghorydd yn trefnu noson tuag at Ambiwlans Awyr Cymru a'r Cae Chwarae
- Ffens ger garages Maeshyfryd wedi disgyn, peli polystyren a 'sbwriel ym mhob man, a drain angen torri

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth gan y Cynghorydd Sir

17. Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:

PENDERFYNIAD: Dim mater brys i'w nodi.

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 8:45pm

Llofnod y Cadeirydd